

Prifysgol Bangor
COFNODION PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL

Cyfarfod: 6 Tachwedd 2019

Presennol: Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr D Davies, Mr H Ellis, Mr A Jones, Dr J Latchford, Dr P Mullins, Dr K Mundy, Mrs R Parry, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mr L Wiegand, Mr H Williams, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Mr W Jones, Mrs T Hibbert, Mrs J Roberts, Yr Athro P Spencer, Mr T Williams, Dr G Robinson

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu Mr Lars Wiegand, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS), i'r cyfarfod.

566. Cofnodion

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 5 Mehefin 2019.

567. Materion yn codi

Nodwyd yr eitemau canlynol:

- a) 561 Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol: Cyfrifoldebau a Threfniadau: Cymeradwyodd Cyngor y Brifysgol y ddogfen Cyfrifoldebau a Threfniadau ddiwygiedig.
- b) 562(v) Ystadegau Damweiniau a Salwch dros y flwyddyn: Sefydlwyd gweithgor (sy'n cynnwys Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch ac adrannau perthnasol) yn dilyn cynnydd mewn absenoldebau salwch cyhyrysgerbydol yn ystod 9 mis cyntaf 18/19. Nodwyd bod nifer y digwyddiadau wedi sefydlogi yn ystod gweddill y flwyddyn. Darperir adroddiad ar ganfyddiadau'r gweithgor i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

568. Adroddiad gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol a ganlyn yn y cyfarfodydd hynny:

- i. *Cofnodion Cynefino Iechyd a Diogelwch:* Cadarnhawyd bod gweithgor wedi'i sefydlu, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, i wella systemau ar gyfer cofnodi hyfforddiant ac i alluogi i golegau a gwasanaethau gofnodi hyfforddiant staff ar system electronig ganolog.
- ii. *Holiadur Iechyd a Diogelwch Blynnyddol i Golegau/Gwasanaethau Proffesiynol:* Nodwyd bod y sylwadau ar y cyfan yn gadarnhaol, gyda dim ond 2 faes wedi'u nodi fel perfformiad 'canolig' a'r 9 maes pwnc arall yn dangos perfformiad 'da'.
- i. *Asesiadau Risg Tân:* Ystyriwyd a thrafodwyd papur cryno, yn nodi cwblhau a pherfformiad yn erbyn pob categori blaenoriaeth. Darperir adroddiad am gynnydd maes o law.

569. Adroddiadau Archwilio/Adolygu: Undeb Trading Cyf.

Derbyniwyd adroddiad ar yr Archwiliad Iechyd a Diogelwch ar Undeb Trading Cyf, is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r brifysgol. Nodwyd y canfuwyd yn gyffredinol bod lefel y perfformiad yn dda. Ymhlith y meysydd i'w datblygu a'u cefnogi mae gwella dogfennaeth a chadw cofnodion. Mae Iechyd a Diogelwch wedi bod yn gweithio gyda'r Rheolwr Gweithrediadau i roi sylw i'r mwyafrif o

gamau gweithredu/argymhellion a nodwyd a byddant yn mynd ar ôl y rhain yn ffurfiol yn Rhagfyr/Ionawr.

570. Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch

Trafodwyd crynodeb o Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2018/2019, a ddisbarthwyd yn flaenorol, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- i. **Damweiniau a Digwyddiadau:** Mae'r gymhareb o ddamweiniau a achosodd anaf i staff a myfyrwyr yn is na'r hyn sy'n arferol yn y sector.

Cafwyd adroddiadau am 56 damwain a achosodd anaf i staff a myfyrwyr (43 i staff a 13 i fyfyrwyr). Roedd hyn yn ostyngiad bach ar y 61 damwain a achosodd anaf a gofnodwyd yn 17/18. Roedd cymhareb damweiniau a achosodd anaf i staff yn 21 o ddamweiniau i bob 1,000 o weithwyr (22 damwain i bob 1,000 a gofnodwyd yn 17/18).

- i. **Damweiniau a achosodd gollu amser o'r gwaith:** Adroddwyd am wyth anaf a achosodd gollu amser o'r gwaith. Roedd pump o'r digwyddiadau hyn yn gysylltiedig â llithro a baglu yn y gwaith a thri o ganlyniad i weithgareddau codi a symud pethau.

- ii. **Adroddiadau am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau:** Adroddwyd am 148 o ddigwyddiadau na achosodd anafiadau. Roedd 128 yn ymwneud â damwain a fu bron â digwydd, sefyllfa beryglus neu arferion anniogel, tra oedd yr 20 arall yn adroddiadau am ddigwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a chonfylsiynau).

- iii. **Absenoldeb Salwch:** Roddwyd gwybod am gyfradd absenoldeb salwch staff o 5.47 diwrnod i bob gweithiwr cyfwerth amser llawn (5.40 diwrnod yn 2017/18). Roedd hyn yn cyfateb i 2.51% o amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch (8,712 diwrnod gwaith). Mae'r arwyddion yn awgrymu y bydd y brifysgol yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y sector.

Roedd absenoldebau hirdymor (rhai dros 20 diwrnod) yn cyfrif am 64% o'r holl ddyddiau a gollwyd trwy salwch, cynnydd o 1.6% ar ffigurau 2017/18.

- iv. **Larymau Tân yn Canu:** Cafwyd 96 achos o larymau tân yn canu yn adeiladau'r brifysgol (44 mewn adeiladau academaidd/gweinyddol a 52 mewn neuaddau preswyl), gostyngiad o 3% ar y 99 yn 17/18. Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r brifysgol ar 22 achlysur oherwydd galwad tân, 21 o'r rhain i neuaddau preswyl.

- v. **Tanau:** Cafwyd un tân (yn ôl y diffiniad) yn adeilad Pontio; achoswyd hwn gan gontractwyr yn gwneud 'gwaith poeth' a achosodd i ddeunydd toi orboethi nes iddo fynd ar dân.

- vi. **Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Cyffredinol:** Cafodd tua 291 aelod staff hyfforddiant iechyd a diogelwch cyffredinol yn ystod y flwyddyn.

- vii. **Dangosyddion Perfformiad Allweddol Hyfforddiant:** Dim ond 69% o staff newydd a aeth i'r sesiynau cynefino canolog, gan fethu targed 18/19 o 21%. Mae ymdrechion yn parhau i gyflwyno opsiwn ar-lein.

Rhagorwyd ar y targed dangosydd perfformiad allweddol o 80% o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ar ddefnyddio cyfrifiaduron.

- viii. **Digwyddiadau'n ymwneud â cherbydau:** Yn 2018/19, rhoddwyd gwybod am 5 damwain yn ymwneud â cherbydau; roedd 4 o'r rhain yn ymwneud â mân ddigwyddiadau yn gysylltiedig â defnyddio cerbydau'r brifysgol (e.e. taro bolard). Nid oes gymhareb digwyddiadau i bob 100,000 o filltiroedd ar gael oherwydd bod y data'n gyfyngedig.

- ix. **Achosion sifil i hawlio iawndal:** Cafwyd dau Hawliad Atebolrwydd Cyflogwr, yn dilyn anafiadau a gofnodwyd yn y gwaith, ac un Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus, am anaf a gofnodwyd wrth ddefnyddio offer chwaraeon.
- x. **Arolygiadau safleoedd:** Gostyngodd nifer yr arolygiadau iechyd a diogelwch mewnol ar waith adeiladu/cynnal a chadw i 189, o'i gymharu â 258 y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, dangosodd canfyddiadau'r arolygiadau hynny welliant amlwg yn y safonau gweithredu a welwyd ar y safle.

571. Adroddiadau am Ddamweiniau a Digwyddiadau Sylweddol

- a) Darparwyd adroddiad ar y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amdanynt o 1 Awst 2018 - Hydref 2019, yn unol â gofynion y Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Yn fyr:
 - i. Cafwyd 9 Adroddiad RIDDOR; 7 yn ymwneud â staff a 2 ag aelodau o'r cyhoedd (1 myfyriwr ac 1 ymwelydd).
 - ii. Staff: O'r 7 digwyddiad:
 - roedd 5 yn Adroddiad 'Dros 7 Diwrnod', lle na allai'r aelod staff gyflawni ei (g)waith am fwy na 7 diwrnod yn olynol yn dilyn y digwyddiad. Achoswyd tri gan ddigwyddiadau'n ymwneud â chodi a symud pethau, tra bod y ddau arall yn ganlyniad llithro neu faglu yn y gwaith.
 - ystyriwyd 2 yn 'Anaf Penodedig' (torri arddwrn a thorri braich), y ddau o ganlyniad i lithro neu faglu yn y gwaith.
 - iii. Aelodau'r cyhoedd: Cafwyd 2 ddigwyddiad:
 - Myfyriwr: Aed â'r myfyriwr i'r ysbyty i gael triniaeth (yn yr adran damweiniau ac achosion brys) ar ôl llithro wrth ddefnyddio teclyn llaw i wahanu mowld printiedig 3D plastig oddi wrth y deunydd a oedd yn ei ddal yn ei le. Cafodd yr anaf ar figwrn y myfyriwr ei drin gyda thriniaeth 'gludio'.
 - Y Cyhoedd: Aed ag ymwelydd (perfformiwr yn Pontio) i'r ysbyty (adran damweiniau ac achosion brys) i gael triniaeth am fraich wedi torri. Roedd y perfformiwr yn cerdded yn droednoeth o'r ystafell wisgo i'r man perfformio pan lithrodd ar y llawr tamp.

Ystyriodd y pwyllgor bob adroddiad a chadarnhawyd y bydd digwyddiadau RIDDOR yn y dyfodol hefyd yn cael eu hystyried gan aelodau'r pwyllgor.

- b) Yn ogystal, ystyriwyd adroddiad ar ddigwyddiad peryglus yn Adeilad Alun Roberts, lle syrthiodd darn o goncrit i'r llawr o unfed llawr ar ddeg yr adeilad, ac ystyriwyd goblygiadau hynny. Sicrhawyd y pwyllgor y cymerwyd camau priodol ac amserol mewn ymateb i'r digwyddiad.

572. Adroddiad ar Faterion Ystadau

Cafwyd adroddiad llafar gan Gyfarwyddwr newydd PACS. Nodwyd y canlynol:

- i. Ar hyn o bryd mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod â'r holl golegau a gwasanaethau proffesiynol i weld yn well beth yw eu profiadau a'u pryderon lleol, ac i bwysu a mesur risgiau tybiedig yng nghyd-destun risgiau ehangach y brifysgol.
- ii. Mae Strategaeth Ystadau yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cymryd misoedd lawer a bydd yn cyd-fynd â Gweledigaeth Strategol y Brifysgol.

- iii. Croesawyd cefnogaeth staff PACS a chymuned ehangach y brifysgol ac anogwyd cydweithwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn lle cydnabu'r pwyllgor waith staff PACS trwy gyfnodau heriol.

573. Unrhyw fater arall

Dim.

Trefnwyd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch fel a ganlyn:

Dydd Mercher 11 Mawrth 2020, 2pm, Cledwyn 3

Dydd Mercher 3 Mehefin 2020, 2pm, Cledwyn 3